Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

**Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)**

**Rheolau Sefydlog ar gyfer Cynnal Busnes y Bwrdd**

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ........ 1
2. **Cefndir** ........ 2
3. **Aelodaeth o'r Bwrdd** ........ 2
4. **Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd** ........ 3
5. **Mynychder a lleoliad cyfarfodydd y Bwrdd** ........ 3
6. **Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd** ........ 4
7. **Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru** ........ 4
8. **Sylwedyddion** ........ 4
9. **Cyfranogwyr eraill** ........ 4
10. **Gofyn i'r Rhai Nad Ydynt yn Aelodau o'r Bwrdd Adael** ........ 5
11. **Cofrestr presenoldeb** ........ 5
12. **Trefn Busnes** ........ 5
13. **Agenda a Phapurau** ........ 6
14. **Penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd** ........ 6
15. **Cofnodion** ........ 7
16. **Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau** ........ 7
17. **Pwyllgorau'r Bwrdd** ........ 8
18. **Cydweithio gyda chyrff eraill** ........ 9
19. **Datgelu Trafodion y Bwrdd** ........ 9
21. **Amrywio a Dehongli'r Rheolau Sefydlog** ........ 9

**Atodiad A – Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** ........ 10


## 1. Cyflwyniad

Lluniwyd y Rheolau Sefydlog hyn ar gyfer Cynnal Busnes y Bwrdd gan Fwrdd Medr.

Lle y bo'n berthnasol, dylid darllen a dehongli'r Rheolau Sefydlog hyn ar y cyd â phwerau a swyddogaethau statudol y sefydliad. Ni ddylai unrhyw Reol Sefydlog gael ei llunio, ei darllen, ei chymhwyso na'i hatal mewn ffordd sy'n groes i unrhyw reol gyfreithiol, darpariaeth ddeddfwriaethol neu delerau'r Ddogfen Fframwaith.

Fel lleiafswm, bydd y Bwrdd yn adolygu'r Rheolau Sefydlog hyn bob blwyddyn i ddechrau

## 2. Cefndir

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (enw brand 'Medr') yw'r corff rheoleiddio, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu'r holl addysg ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau, a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Fel corff cyhoeddus, mae Medr yn gweithredu fel asiant cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru a'i brif rôl yw cyflawni ei ddyletswyddau statudol a chyfrifoldebau polisi a nodir yng nghyd-destun Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn y datganiad o flaenoriaethau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 13 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

## 3. Aelodaeth o'r Bwrdd

Yn unol ag Atodlen 1 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, bydd gan Medr Fwrdd a fydd yn cynnwys uchafswm o ddau aelod ar bymtheg, sef Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd (a fydd yn gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi), y Prif Weithredwr a hyd at bedwar ar ddeg o Aelodau Cyffredin**.**

Er mwyn i Medr fod wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol, bydd o leiaf saith aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr ac o leiaf bedwar Aelod Cyffredin.

Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am benodi'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, ac Aelodau Cyffredin y Bwrdd ac am benodi'r Prif Weithredwr cyntaf. Bydd penodiadau dilynol i rôl y Prif Weithredwr yn cael eu gwneud gan Fwrdd Medr, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Bydd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelodau Cyffredin yn cael eu penodi trwy ymarfer penodiadau cyhoeddus. Bydd penodiadau'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac yn dilyn y Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus.

Yn ychwanegol at Aelodau Cyffredin y Bwrdd y cyfeirir atynt uchod, bydd y Bwrdd hefyd yn cynnwys Aelodau Cyswllt. Nid yw Aelod Cyswllt yn gymwys i bleidleisio yn unrhyw drafodion.

Bydd o leiaf bedwar Aelod Cyswllt, a fydd yn cynnwys:

- o leiaf ddau gynrychiolydd o'r gweithlu addysg drydyddol, un i gynrychioli'r gweithlu academaidd, ac un i gynrychioli'r gweithlu anacademaidd, y byddant ill dau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru.
- un aelod o staff Medr, a benodir gan Bwyllgor Penodi Aelod Staff y Bwrdd; ac
- o leiaf un person a benodir gan Weinidogion Cymru i gynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol.

## 4. Cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd

Mae cworwm yn golygu isafswm yr aelodau cymwys y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn i'r penderfyniadau a wneir fod yn ddilys.

Y cworwm ar gyfer un o gyfarfodydd y Bwrdd fydd **50% o'r Aelodau Cyffredin, (wedi'i dalgrynnu os oes angen) ac un arall.** Mae'r Cadeirydd (neu eu henwebai) a'r Dirprwy Gadeirydd wedi'u cynnwys yn y nifer hwn. Rhaid i'r Prif Weithredwr fod yn bresennol hefyd er mwyn i'r cyfarfod fod yn un â chworwm. Os nad yw'r Prif Weithredwr yn gallu bod yn bresennol, rhaid iddynt enwebu aelod o'r uwch dîm arwain i ddirprwyo. Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo awdurdod i'r unigolyn hwn fwrw pleidlais ar eu rhan.

Os nad oes cworwm yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd, dylai'r Cadeirydd neu eu henwebai ddatgan nad oes cworwm yn bresennol a dylid gohirio'r cyfarfod. Bydd ystyriaeth i unrhyw fusnes nas trafodwyd yn cael ei gohirio tan ddyddiad ac amser sydd i'w pennu gan y Cadeirydd neu tan gyfarfod nesaf y Bwrdd.

## 5. Mynychder a lleoliad cyfarfodydd y Bwrdd

Fel arfer bydd y Bwrdd yn cwrdd ar o leiaf bedwar achlysur ym mhob blwyddyn galendr, gyda disgwyliad y bydd y Bwrdd yn cwrdd yn y cnawd rhwng 4 a 6 gwaith. Hefyd ac fel y bo angen, bydd y Bwrdd yn cael cyfarfodydd ar-lein (gyda'r disgwyliad mai unwaith y mis ac fel arfer am lai na 2 awr i hwyluso diweddariadau a sesiynau gwybodaeth fydd hyn).

Gellir cynnal cyfarfodydd y Bwrdd naill ai yn y cnawd neu ar-lein, fel y penderfyno'r Bwrdd.

Fel arfer dylai cyfarfodydd gael eu cynnal ar ddydd Mawrth, dydd Mercher neu ddydd Iau, fel arfer yn swyddfeydd Medr yng Nghaerdydd, gyda disgwyliad y bydd o leiaf un cyfarfod yn y cnawd yn cael ei gynnal yng Ngogledd neu Orllewin Cymru, ond gallant gael eu cynnal ar adegau ac mewn lleoliadau eraill yn ôl disgresiwn y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn cytuno yn un o'i gyfarfodydd rheolaidd bob blwyddyn ar amseroedd a lleoliadau ei holl gyfarfodydd am y flwyddyn ganlynol.

Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal mewn unrhyw leoliad cyfleus a gallant gynnwys presenoldeb rhithwir, er y disgwylir i Aelodau'r Bwrdd wneud pob ymdrech i fod yn bresennol mewn o leiaf 70% o'r cyfarfodydd yn y cnawd. Fel lleiafswm, bydd y lleoliad yn cael ei gyhoeddi o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod. Lle gelwir cyfarfodydd dan amgylchiadau eithriadol, bydd Medr yn cyhoeddi'r lleoliad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Fel arfer bydd y Bwrdd yn cynnal cyfarfod, neu gyfarfodydd, cyhoeddus blynyddol, i hybu dealltwriaeth y cyhoedd am ei waith ac i gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf.

Gall y Bwrdd benderfynu, neu fe all y Cadeirydd ofyn, bod Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnull cyfarfod arbennig o'r Bwrdd i ymdrin â busnes nad yw'n gallu aros tan y cyfarfod nesaf.

## 6. Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd

Yn ychwanegol at Aelodau'r Bwrdd, dylai'r aelodau canlynol o staff Medr fod yn bresennol fel arfer yng nghyfarfodydd y Bwrdd:

- Ysgrifennydd y Bwrdd;
- aelodau eraill o staff i gyflwyno papurau ac ymateb i gwestiynau ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda; ac
- aelodau eraill o staff yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, i glywed y drafodaeth lle bydd yr hyn a drafodir gan y Bwrdd yn goleuo eu gwaith hwy neu fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

## 7. Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

Er na ddylent fod yn bresennol yn rheolaidd, ceidw Gweinidogion Cymru yr hawl i'w swyddogion fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd Medr i gynghori a/neu arsylwi. Gall y Bwrdd eu gwahodd i fod yn bresennol i roi cyngor penodol neu wybodaeth benodol hefyd.

Rhaid i Medr ddarparu agendâu a phapurau ymlaen llaw i Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru (y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r berthynas strategol â Medr) ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd i'w alluogi i ystyried a yw swyddogion yn dymuno bod yn bresennol a chyfrannu at y trafodaethau. Dylid darparu papurau i'r Tîm Partneriaeth yr un pryd ag y'u darperir i Aelodau'r Bwrdd. Dylai Medr hefyd amlygu wrth y Tîm Partneriaeth unrhyw faterion a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd sy'n newydd, yn ddadleuol, yn dwyn ôl-effeithiau, neu'n anodd.

Ni fydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n chwarae unrhyw ran ym mhroses benderfynu'r Bwrdd.

## 8. Sylwedyddion

Gellir gwahodd sylwedyddion i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Gyda chaniatâd y Cadeirydd, gallant siarad a chyfrannu i drafodaethau, ond ni allant gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Bwrdd.

## 9. Cyfranogwyr eraill

Os yw'n meddwl bod hynny'n ddymunol, gall y Cadeirydd wahodd cynrychiolydd corff arall neu unigolyn i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd, naill ai ar gyfer eitem benodol ar yr agenda neu am y cyfarfod cyfan. Bydd unrhyw wahoddiad o'r fath yn cael ei wneud yn hysbys i Ysgrifennydd y Bwrdd.

## 10. Gofyn i'r Rhai Nad Ydynt yn Aelodau o'r Bwrdd Adael

Gall y Cadeirydd ofyn i aelodau o staff a/neu sylwedyddion a/neu gyfranogwyr eraill nad ydynt yn aelodau adael os yw'n meddwl bod hynny'n briodol ar unrhyw adeg yn ystod un o gyfarfodydd y Bwrdd neu yn ystod cyfarfod gan un o Bwyllgorau neu Weithgorau'r Bwrdd. Mewn achos o'r fath, bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, neu'r sawl sy'n gweithredu ar eu rhan, yn aros i gofnodi'r rhan honno o'r cyfarfod, heblaw mewn unrhyw achosion a bennir gan y Cadeirydd.

## 11. Cofrestr presenoldeb

Bydd cofrestr presenoldeb yn cael ei gadw gan Ysgrifennydd y Bwrdd, neu gan y sawl sy'n gweithredu ar ei ran, ar gyfer yr holl Aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a Gweithgorau'r Bwrdd, a bydd enwau pawb sy'n bresennol yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y cyfarfodydd hynny.

## 12. Trefn Busnes

Bydd trefn arferol busnes yng nghyfarfodydd y Bwrdd fel a ganlyn:

i. sylwadau cyflwyniadol (yn ôl disgresiwn y Cadeirydd)
ii. ymddiheuriadau am absenoldeb
iii. datganiadau o fuddiant
iv. cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Bwrdd fel cofnod cywir
v. materion yn codi
vi. Adroddiad y Cadeirydd
vii. adroddiadau gan Gadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd (yn ôl y gofyn)
viii. Adroddiad y Prif Weithredwr, yn ôl y gofyn (gan gynnwys eitemau y gall fod angen i'r Bwrdd eu trafod a/neu benderfynu arnynt ac adroddiadau ar arfer awdurdod dirprwyedig ac ar faterion y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd trwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd)
ix. papurau ar gyfer trafodaeth
x. unrhyw fusnes arall
xi. dyddiad y cyfarfod nesaf
xii. papurau ar gyfer cymeradwyaeth heb drafodaeth
xiii. papurau er gwybodaeth
xiv. busnes a gadwyd yn ôl (yn ôl y gofyn) – eitemau i'w hystyried gan aelodau'r Bwrdd yn unig, heb staff, er y bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn bresennol fel arfer i gymryd nodyn o'r drafodaeth a chofnodi unrhyw benderfyniad.

Bydd rhestr o faterion allweddol i'w hystyried gan y Bwrdd am y flwyddyn yn cael ei llunio gan Ysgrifennydd y Bwrdd a bydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, adroddiadau rheolaidd (chwarterol ar gyfer perfformiad ariannol) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ar y canlynol:

- perfformiad yn erbyn cynlluniau strategol a gweithredol y Bwrdd, gan gynnwys diweddariadau ar gyllidebau costau cylchol, costau cyfalaf a chostau rhedeg;
- y proffil llifoedd arian, gan gynnwys y balans diwedd blwyddyn rhagamcanol; a

- gwybodaeth allweddol am y fantolen, gan gynnwys gwybodaeth am ddyledwyr a chredydwyr ac am arian parod.

Gellir amrywio trefn busnes yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

Bydd papurau er gwybodaeth yn cael eu trafod yn y cyfarfod os yw unrhyw Aelod yn hysbysu Ysgrifennydd y Bwrdd cyn y cyfarfod.

Gellir ymdrin ag unrhyw fater nad yw wedi'i nodi yn yr hysbysiad ynghylch y cyfarfod os yw, ym marn y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr, o natur frys ar ba bynnag adeg yn y cyfarfod sy'n briodol yn nhyb y Cadeirydd. Mae gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig i gynnal busnes brys rhwng cyfarfodydd yn unol â'r gofynion a nodir yng Nghynllun Dirprwyo'r Bwrdd.

## 13. Agenda a Phapurau

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnal cyswllt â'r Cadeirydd ynghylch yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd Bwrdd sydd i ddod.

Bydd yr agenda a'r papurau ategol yn cael eu hanfon at yr Aelodau'n ddim hwyrach na saith niwrnod cyn y cyfarfod. Dim ond gyda chydsyniad y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr y gellir anfon neu gyflwyno unrhyw bapurau ychwanegol.

Ceir gwybodaeth fanylach am amryw gategorïau a strwythur papurau'r Bwrdd yn **Atodiad B** wrth y Rheolau Sefydlog hyn.

## 14. Penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd

Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod busnes y Bwrdd yn cael ei cynnal mewn modd trefnus a bod yr holl Aelodau'n gallu cyfrannu i'r drafodaeth. Y Cadeirydd hefyd sy'n gyfrifol am arwain y cyfarfod i ddod i benderfyniadau.

Bydd trafodaethau a phenderfyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn digwydd yn unol â'r:

- *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Mehefin 2019* sy'n seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan);
- egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (fel y cyfeirir ati yn **Atodiad A**); a hefyd
- Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd.

Bydd yr holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu gwneud ar sail cytundeb trwy gonsensws. Yn niffyg consensws, a lle caiff hynny ei gynnig a'i eilio gan ddau o Aelodau Cyffredin y Bwrdd, gellir gofyn i Ysgrifennydd y Bwrdd gyfrif a chofnodi pleidleisiau trwy ddangos dwylo ymhlith Aelodau Cyffredin y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar sail cydgyfrifoldeb. Anogir Aelodau'r Bwrdd i fynegi unrhyw wahaniaeth barn ym mhroses benderfynu fewnol y Bwrdd, ond unwaith y gwneir penderfyniad mae'r penderfyniad hwnnw'n rhwymo'r holl Aelodau.

## 15. Cofnodion

Bydd cofnodion pob un o gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd. Bydd holl gofnodion Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw a byddant yn cael eu marcio â'r geiriau 'heb eu cadarnhau' os nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo eto gan y Pwyllgor.

Bydd y Cadeirydd yn ceisio cadarnhad y gellir cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Ni fydd unrhyw drafodaeth yn digwydd ynglŷn â'r cofnodion ac eithrio ynglŷn â'u cywirdeb (ymdrinnir â materion yn codi fel eitem ar wahân ar yr agenda). Os na chodir cwestiwn ynghylch eu cywirdeb, neu os codir cwestiwn yna cyn gynted â'i fod wedi cael ei ateb, bydd y Cadeirydd yn llofnodi'r cofnodion. Bydd yr holl gofnodion wedi'u llofnodi'n cael eu cadw mewn lleoliad diogel gan Ysgrifennydd y Bwrdd.

## 16. Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau

~~Dylai unrhyw Aelodau â buddiant uniongyrchol yn unrhyw eitem sydd i'w thrafod yn un o gyfarfodydd y Bwrdd adael y cyfarfod tra bo'r eitem honno'n cael ei thrafod yn unol â'r *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Mehefin 2019.*~~

Mae *Telerau ac Amodau Penodiad fel Aelod o Fwrdd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac* Ymchwil, a ddyroddwyd gan Lywodraeth Cymru ar adeg eu penodi, yn ei gwneud yn ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau preifat – yn rhai ariannol neu fel arall – a allai wrthdaro, neu y gellid yn rhesymol feddwl eu bod yn gwrthdaro, â'u dyletswyddau cyhoeddus fel aelod o Fwrdd Medr. Rhaid i aelodau'r Bwrdd hefyd gydymffurfio â'r *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Mehefin* 2019, gan gynnwys y gofynion yn y *Cod* ar ymdrin â gwrthdaro buddiannau. Bydd hi'n ofynnol i aelodau gofnodi'r buddiannau a ddatganwyd ganddynt trwy gwblhau ffurflen *Datgan Buddiannau* Medr, a chyfrifoldeb pob aelod yw sicrhau bod manylion y buddiannau a ddatganwyd ganddynt yn cael eu diweddaru. Bydd y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Medr.

Os yw Aelod yn datgan buddiant mewn mater sydd i'w ystyried yn un o gyfarfodydd y Bwrdd bydd y datgeliad yn cael ei gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod. Fel a nodir yn Nogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Medr, cyfrifoldeb personol y Cadeirydd yw sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i reoli gwrthdaro buddiannau. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cadeirydd (neu'r Dirprwy Gadeirydd yn eu habsenoldeb, neu os oes gwrthdaro yn achos y Cadeirydd) yn penderfynu a ddylai Aelod o'r Bwrdd adael y cyfarfod tra bo'r eitem dan sylw'n cael ei thrafod.

Bydd holl Aelodau'r Bwrdd yn cael eu trin yn gyson wrth ystyried achosion o wrthdaro buddiannau, neu achosion tybiedig o wrthdaro buddiannau, mewn perthynas â materion a drafodir gan y Bwrdd. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd Aelodau'r Bwrdd yn cael eu

hysbysu ymlaen llaw os oes eitem ar agenda'r Bwrdd – boed ar y brif agenda, neu dan faterion busnes a gadwyd yn ôl – y mae ganddynt wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl mewn perthynas â hi sydd felly'n golygu y gallai fod yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod tra bo'r eitem honno'n cael ei thrafod.

## 17. Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu tri phwyllgor statudol dan Atodlen 1 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil:

- Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi;
- Pwyllgor Ansawdd; a hefyd
- Pwyllgor Penodi Aelod y Staff.

Bydd y **Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi** yn cynghori Medr ynghylch materion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi ac mae wedi'i fwriadu i helpu i sicrhau bod Medr yn gweithredu fel hyrwyddwr ar gyfer ymchwil yng Nghymru ar lefel y DU ac yn fyd-eang. Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd fydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

Bydd y **Pwyllgor Ansawdd** yn cynghori Medr ynghylch ansawdd yr holl addysg drydyddol a gyllidir, neu a gaiff ei sicrhau fel arall, gan Medr. Bydd hefyd yn ystyried materion polisi sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny. Rhaid penodi Aelod Cyffredin yn Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd.

Bydd **Pwyllgor Penodi Aelod y Staff** yn gyfrifol am benodi aelod o blith staff Medr i ddod yn Aelod Cyswllt. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau Cyffredin.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff a noddir, rhaid i Medr hefyd sefydlu **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)** i gynghori ei Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch digonolrwydd trefniadau yn y sefydliad ar gyfer materion archwilio mewnol, sicrwydd, archwilio allanol, a llywodraethu corfforaethol.

Wrth sefydlu ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dylai Medr gyfeirio at y canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn atebol i'r Bwrdd, ac yn adrodd wrtho, fel un o Is-bwyllgorau'r Bwrdd hwnnw a bydd yn cael ei gadeirio gan Aelod Cyffredin a ddylai fod â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol a chymhwyster proffesiynol gan gorff cyfrifyddu.

Gall y Bwrdd sefydlu pa bynnag Bwyllgorau eraill sy'n addas yn ei farn ef dan Atodlen 1 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd yn pennu eu haelodaeth a'u Cylchoedd Gorchwyl a bydd yn adolygu strwythur a chwmpas gweithgareddau pob Pwyllgor yn gyson.

Bydd Cylchoedd Gorchwyl a Rheolau Sefydlog ar gyfer holl Bwyllgorau'r Bwrdd a fydd yn cynnwys y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau; cyfnodau yn y rôl ar gyfer aelodau'r Pwyllgorau; trefniadau ar gyfer enwi Dirprwy Gadeirydd i gadeirio cyfarfodydd yn absenoldeb y Cadeirydd; ac y bydd pob Pwyllgor yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd.

Gall y Bwrdd wneud y canlynol ar unrhyw adeg:

- diddymu Pwyllgor (ac eithrio'r Pwyllgorau hynny sy'n ofynnol yn ôl statud neu dan delerau Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru);
- addasu ei aelodaeth;
- diwygio ei Gylch Gorchwyl neu Reolau Sefydlog; neu
- dynnu unrhyw bwerau a ddirprwywyd yn ôl.

## 18. Cydweithio gyda chyrff eraill

Mae'r Bwrdd yn gweithio gydag ystod o gyrff partner yng Nghymru ac yn y DU er mwyn cyflawni ei amcanion a gwireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae rhai o'r partneriaethau hyn wedi'u ffurfioli â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu fath arall o gytundeb sy'n sefydlu'r disgwyliadau ar gyfer y naill bartner a'r llall. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau cynnydd rheolaidd ar drefniadau cydweithio.

## 19. Datgelu Trafodion y Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyhoeddi crynodeb byr o'r holl bwyntiau allweddol a drafodwyd gan y Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

## 20. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo.

## 21. Amrywio a Dehongli'r Rheolau Sefydlog

Mae methu â chydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog yn fater disgyblu a allai arwain at ddiswyddo unigolyn o'i gyflogaeth neu fel aelod o'r Bwrdd.

Lle y bo angen, gellir addasu, atal neu ddirymu'r Rheolau Sefydlog, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol. Maent yn dal i fod mewn grym oni bai a hyd nes y cânt eu haddasu, eu hatal, neu eu dirymu.

Gall cynigion ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog hyn gael eu gwneud gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a/neu unrhyw Aelod(au) o'r Bwrdd. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cytuno gan y mwyafrif (gweler Rheol Sefydlog 5 ar gworwm) o Aelodau'r Bwrdd.

Lle nad yw'r Rheolau Sefydlog yn gwneud darpariaeth benodol, gall y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, bennu gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes a thrafodion y Bwrdd. Dylid ceisio cyngor ac arweiniad gan Ysgrifennydd y Bwrdd cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau.

Adolygwyd a diweddarwyd: Tachwedd 2024

## Atodiad A – Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – sef, bod Medr yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Lle y bo'n berthnasol, bydd papurau'r Bwrdd sy'n gofyn am benderfyniad yn nodi'r ystyriaethau a roddwyd i'r pum gwerth sy'n diffinio'r egwyddor:

*Dull hirdymor* – taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ar y naill law a'r dyhead i ddiogelu'r gallu i ymdrin ag anghenion tymor hwy ar y llaw arall.
*Atal* – sut y gall gweithredu atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
*Integreiddio* – sut y gall ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ein hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
*Cydweithio* – sut y gall gweithredu ar y cyd ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant.
*Cynnwys Pobl* – pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

## Atodiad B – Categorïau papurau'r Bwrdd

Bydd papurau'r Bwrdd fel rheol yn perthyn i un o'r tri chategori canlynol:

***Ar gyfer trafodaeth***

Papurau lle mae gofyn i'r Bwrdd drafod y materion a/neu wneud penderfyniadau:

Ar gyfer trafodaeth a phenderfyniad: materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd dan y Cynllun Dirprwyo neu nad ydynt wedi'u cynnwys yn y pwerau a ddirprwywyd i'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr.

Ar gyfer trafodaeth, dim penderfyniad yn ofynnol, ond lle, er enghraifft, gofynnir am arweiniad gan y Bwrdd, neu y gofynnir i'r Bwrdd drafod a nodi.

Ar gyfer trafodaeth a phenderfyniad: materion eraill lle gofynnir am benderfyniad gan y Bwrdd.

***Ar gyfer cymeradwyaeth heb drafodaeth***

Papurau lle mae angen cytundeb y Bwrdd ond lle nad yw'r materion yn ddadleuol a lle nad oes angen trafodaeth lawn, gan gynnwys materion y mae gofyn i'r Bwrdd eu cadarnhau. Lle mae naill ai eitem 'Ar gyfer trafodaeth' neu eitem 'Ar gyfer cymeradwyaeth heb drafodaeth' ar yr agenda'n gofyn am ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a/neu'r Prif Weithredwr, bydd y papur yn datgan a yw'r awdurdod dirprwyedig yn cael ei geisio: (a) am ei fod y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Cynllun Dirprwyo; ynteu (b) am ryw reswm arall.

***Er gwybodaeth***

Papurau lle nad oes angen cytundeb y Bwrdd ond bod y cynnwys yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth yr Aelodau ac mai'r teimlad yw nad oes angen trafodaeth.

Fel arfer bydd Adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys eitemau byrrach a gyflwynir gerbron y Bwrdd ar gyfer trafodaeth, ar gyfer cymeradwyaeth heb drafodaeth, neu er gwybodaeth, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, adroddiadau ar arfer awdurdod dirprwyedig trwy'r Cynllun Dirprwyo ac adroddiadau ar faterion y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd trwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd.

Bydd yr adroddiad Materion yn Codi'n crynhoi'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt a materion a godwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, adroddiadau ar arfer awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd i'r Cadeirydd a/neu'r Prif Weithredwr, ac adroddiadau ar faterion y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd trwy ohebiaeth rhwng cyfarfodydd.

Bydd rhai o bapurau'r Bwrdd, neu eitemau yn Adroddiad y Prif Weithredwr, yn cynnwys deunydd cyfrinachol a byddant wedi'u marcio â'r geiriau 'Cyfyngedig – Aelodau a Sylwedyddion Yn Unig' neu 'Cyfyngedig – Aelodau yn Unig'. Yn yr ail achos, ni fydd y

papurau'n cael eu hanfon at sylwedyddion nac aelodau o staff Medr ac efallai y byddant neu na fyddant ar gael iddynt ar gyfer cyfarfod y Bwrdd, yn ôl disgresiwn y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr.

**Strwythur Papurau'r Bwrdd**

Fel arfer, bydd strwythur cyffredinol papurau'r Bwrdd fel a ganlyn:

*Y Mater*

Eglurhad byr o ddiben y papur, gan gynnwys a yw'r materion a gyflwynir yn ymwneud â chyflawni un o amcanion y Strategaeth Gorfforaethol neu dasg yn y Cynllun Gweithredol, a pham eu bod yn cael eu cyflwyno ar yr adeg hon.

*Argymhelliad/Argymhellion*

Mae'r adran hon yn nodi'r argymhellion y ceisir cytundeb y Bwrdd â hwy.

*Buddiannau aelodau'r Bwrdd*

Unrhyw fuddiannau gan aelodau penodol sy'n ymwneud â'r eitemau a gyflwynir, y tu hwnt i fuddiannau a ddatganwyd eisoes.

*Rhagor o wybodaeth*

Enw a manylion cyswllt llawn awdur y papur.

*Prif gorff y papur*

Manylion y prif faterion a gyflwynir, gan geisio barn y Bwrdd, gan ofyn iddo gymeradwyo argymhellion neu ddarparu arweiniad, neu gan ei wahodd i dderbyn materion er gwybodaeth (gan ddibynnu ar gategori'r papur).

*Goblygiadau ariannol*

Manylion y goblygiadau ariannol, yn awr neu yn y dyfodol, pe bai'r Bwrdd yn cytuno â'r argymhellion yn y papur.

*Goblygiadau o ran cyfathrebu*

Manylion unrhyw oblygiadau o ran cyfathrebu sy'n deillio o'r papur, gan gynnwys unrhyw oblygiadau o ran cyhoeddusrwydd neu sylw yn y cyfryngau.

*Asesu'r effeithiau*

Manylion sy'n dynodi a gynhaliwyd asesiad o effaith y materion yn y papur i asesu'r effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau Medr dan y canlynol:

Deddf Cydraddoldeb 2010

Safonau’r Gymraeg 2018
Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

*Asesu Risgiau*

Manylion unrhyw risgiau cynhenid neu weddilliol, yn awr neu yn y dyfodol, sy’n codi o’r materion a gwmpesir gan y papur.

**Rheolaeth ar y ddogfen**

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| 0.1 | | GD | Drafft 1af wedi’i gyflwyno i gael ei gytuno gan y Bwrdd |
| 1.0 | 06/10/2023 | GD | Rheolau Sefydlog wedi’u hadolygu gan y Bwrdd |
| 1.1 | 12/10/2023 | GD | Diwygiwyd yn dilyn cyfarfod y Bwrdd |
| 1.2 | | GD | Cymeradwywyd gan Julie Lydon ar ran y Bwrdd |
| 2.0 | 09/02/2024 | RJ | Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 23 Chwefror 2024 |
| 2.1 | Awst 2024 | DH | • Wedi disodli cyfeiriadau at ‘CADY’ â chyfeiriadau at ‘Medr’. Wedi dileu cyfeiriadau at y Cyfnod Sefydlu.<br>• Wedi diwygio adran 19 i gyfeirio at gyhoeddi crynodeb o drafodaethau mewn cyfarfodydd, fel a gytunwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2024. |
| 3.0 | Tach 2024 | DH | Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 19 Tachwedd 2024 |